

Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol: Gwybodaeth gefndirol

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau o rwydweithiau cerdded a beicio* yn eu ardaloedd lleol a'u adnabyddir fel Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLI). Dylunwyd y mapiau hyn i ddangos dau brif beth:

1. **Llwybrau teithio presennol** – y llwybrau cerdded a beicio presennol sydd eisoes yn cyrraedd safonau teithio llesol Llywodraeth Cymru, sydd yn golygu eu bod yn medru cael eu defnyddio ar gyfer teithiau pob dydd, a
2. **Llwybrau'r dyfodol** – llwybrau arfaethedig y mae'r awdurdod lleol am eu creu yn y dyfodol, yn ogystal â llwybrau teithio presennol y cynnigir eu gwella i gyrraedd y safonau.

* Er symlrwydd, defnyddir y termau cerdded a beicio ar y mapiau. Fodd bynnag, cynhwysir cerddwyr, rhedwyr, a defnyddwyr sgwteri symudedd, cadeiriau olwyn, beiciau wedi eu addasu a chymhorthion symudedd eraill yn y diffiniad o gerdded a beicio.

Cyfngiadau llwybrau presennol: Yn ogystal â llwybrau sydd yn cyrraedd safonau Llywodraeth Cymru, mae'r mapiau hefyd yn cynnwys nifer bychan o llwybrau presennol nad ydynt yn bell o gyrraedd y safon, ac sydd yn cael eu adnabod fel llwybrau digon pwysig gan yr awdurdod lleol i'w cynnwys er hynny. Lle bo achosion fel hyn, bydd 'datganiad llwybr' ar gael yn egluro cyfngiadau'r llwybr, er mwyn i ddefnyddwyr wneud dewis gwybodus ynghylch a yw'r llwybr yn addas iddynt hwy neu beidio.

Math o llwybrau yn y dyfodol: Lle nodir bod llwybr yn y dyfodol ar gyfer 'cerdded a beicio', nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y llwybr am fod yn un a rennir. Mae llwybrau 'cerdded a beicio' yn cwmpasu ystod o wahanol opsiynau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys llwybrau cerdded a beicio a rennir neu a wahanwyd, oddi wrth neu wrth ymyl y ffordd. Fel mae llwybrau yn cael eu datblygu, bydd yr holl opsiynau ar gyfer darpariaeth cerdded a beicio yn cael eu archwilio yn unol â Chanllawiau y Ddeddf Teithio Llesol, a bydd union ffurf y llwybr yn cael ei bennu yn nes at y dyddiad adeiladu arfaethedig.

Blaenoriaethu llwybrau'r dyfodol: Mae llwybrau'r dyfodol yn dangos sut y cynllunir i'r rhwydwaith cerdded a beicio ddatblygu gydag amser, ac mae'r mapiau yn cynnwys gwybodaeth ynghylch a yw llwybr wedi ei flaenoriaethu ar gyfer cael ei ddatblygu yn y tymor byr, canolig neu hir. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio meini prawf megis y nifer o bobl fyddai'n cael budd o lwybr a'r graddau y byddai'r llwybr yn diwallu anghenion lleol, er mwyn pennu trefn y llwybrau dylai cael eu datblygu neu eu adeiladu. Mae'r amserlin a ddarparwyd gan awdurdodau lleol er mwyn rhoi syniad ond gallent newid. Yn benodol, yn y cyd-destun o ddatblygu seilwaith, mae 'tymor byr' yn debygol o ddynodi bwriad i adeiladu o fewn y pum mlynedd nesaf, yn hytrach nag ymrwymiad i ddechrau yn syth bin.

Cyfleusterau cysylltiedig, rhwystrau a chroesfannau: Mae'r map hefyd yn dangos cyfleusterau cysylltiedig (fel toiledau, parcio beiciau ayb), rhwystrau (ee.

grisiau neu gatiâu) a chroesfannau ffordd lasa fod yn berthnasol i bobl sydd yn defnyddio'r llwybrau. Mae awdurdodau lleol yn cynllunio i ddiweddarau'r wybodaeth hyn yn y dyfodol agos, ond nid yw o reidrwydd yn gyfoes ar hyn o bryd.

Cwmpasiad y mapiau: Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i fapio a datblygu llwybrau teithio llesol yn yr ardaloedd mwyaf poblog ym mhob awdurdod a adnabyddir fel 'ardaloedd dynodedig'. Fodd bynnag, gall llwybrau y tu allan i'r ardaloedd hyn gael eu cynnwys lle mae'r gofyn yn uchel a bod potensial uchel ar gyfer defnydd pob dydd, er enghraifft, er mwyn cysylltu cymuned ar gyrion ardal dynodedig. Gellir dangos ardaloedd dynodedig ar y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol gan ddewis yr haen priodol.

Statws y mapiau: Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol ar awdurdodau lleol i gyflwyno eu mapiau i Weinidogion Cymru pob tair mlynedd. O ganlyniad i effaith parhaus yr argyfwng cofid, awdurdododd Gweinidogion Cymru estyniad i'r dyddiadau cyflwyno ar gyfer y cylch hwn o waith mapio. Mae'r mapiau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru ar gyfer eu cyhoeddi ar gael ar FapDataCymru. Bydd y mapiau ar gyfer gweddill yr awdurdodau lleol yn cael eu ychwanegu unwaith y byddent wedi cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Gwybodaeth bellach: Mae mwy o wybodaeth ar deithio llesol yng Nghymru, yn cynnwys y [Ddeddf Teithio Llesol \(Cymru\) 2013](#) a [Chanllawiau y Ddeddf Teithio Llesol](#) (yn cynnwys safonau dyluniad llwybr) ar gael [yma](#).